

**Ymateb i Bapurau Cyngor Caerdydd 18/4/19  
ar agor Ysgol Ddwyl Ffrwd newydd (cyfrwng Cymraeg a chyfrwng dwyieithog)  
i ddarparu Ysgolion Cynradd Newydd i ardal Plasdŵr**

Mudiad yw RhAG sy'n cynrychioli rhieni disgylion mewn ysgolion Cymraeg a rhai sydd am weld twf ysgolion Cymraeg ag addysg Gymraeg. Mae RhAG yn credu, fel y gwna Llywodraeth Cymru, mai ysgolion Cymraeg yw'r model ysgol gorau o ran rhoi sgiliau llawn mewn dwy iaith i bob disgyl.

Mae RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg) yn gwbl gefnogol i'r syniad o agor:

**Opsiwn 1: Ysgol cyfrwng Cymraeg drwy rannu safle** ag Ysgol cyfrwng Saesneg, â phennaeth ffederal os yw'r penneth yn siaradwr Cymraeg rhugl. Mae hyn wedi gweithio'n effeithiol ar sawl safle yn sir Caerdydd yn y blynnyddoedd diwethaf ac wedi sicrhau rhediad di-drafferth y ddwy ysgol o ddydd i ddydd, gan sicrhau eu hannibyniaeth. Gydag amser gallai'r ysgol ddatblygu'n ysgol ddwy ffrwd cyfrwng Cymraeg ar y safle hwnnw neu safle cyfagos wrth i'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg gynyddu ac wrth i ddatblygiad Plasdŵr dyfu. Os nad yw hyn yn ymarferol bosibl, byddwn yn cefnogi Opsiwn 2.

**Opsiwn 2: Ffrwd annibynnol Gymraeg mewn Ysgol Ddwyl Ffrwd**, gan rannu penneth os yw'n siaradwr Cymraeg rhugl. Rhaid diogelu annibyniaeth y ffrwd Gymraeg i ddarparu amodau addysg drochi. Byddai hyn yn diwallu twf addysg Gymraeg yn lleol wrth i'r datblygiad dyfu yn y cyfnod cyntaf. Byddai'r ffrwd yn gallu tyfu i ddatblygu'n ysgol ddwy ffrwd cyfrwng Cymraeg ar y safle hwnnw, neu ar safle cyfagos, wrth i'r galw am addysg Gymraeg gynyddu ac wrth i ddatblygiad Plasdŵr dyfu.

### Y Ffrwd Gymraeg

Mae'n gadarnhaol gweld bod y cyngor yn dymuno ehangu addysg Cyfrwng Cymraeg yn yr ardal hon, drwy sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd. Rydym yn gwbl gefnogol i hyn ac yn croesawu pob datblygiad cyfrwng Cymraeg newydd. Wrth i ystadau tai newydd gael eu hadeiladu mae'n allweddol bod ystyriaethau ieithyddol yn ganolog yn y cynlluniau hynny. Bydd hyn yn sicrhau bod modd i rieni sy'n ymgartrefu yn yr ardal ddewis addysg Gymraeg yn hwylus ac yn lleol.

Mae Cyngor Caerdydd yn parhau i ddangos arweiniad pendant i gynghorau ar draws Cymru wrth ehangu addysg cyfrwng Cymraeg i ddarparu'r sgiliau gorau i ddisgyblion Caerdydd. Gwyddom mai'r model hwn o **addysg drochi** sydd wedi ei gydnabod yn rhyngwladol a hefyd gan Lywodraeth Cymru fel yr unig fodel sy'n gweithio i greu dinasyddion sy'n gyfangwbl ddwyieithog, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae dros 90% o'r disgyblion yn dod o gartrefi di-Gymraeg. Mae gan RhAG brofiad o dros 40 mlynedd o ymchwilio ac arsylwi ar fodelau gwahanol mewn ardaloedd di-Gymraeg.

**Rydym yn galw felly wrth groesawu'r cynlluniau, am ddiogelu'r model o addysg drochi cyfrwng Cymraeg gydag unrhyw ddatblygiad.**

Dyma pam mae **addysg drochi** mor llwyddiannus:

1. Cydnabyddir yn rhngwladol bod addysg drochi'n rhoi'r cyfle gorau i blentyn gaffael ail iaith, a dod yn rhugl ynddi. Mae'n gyffredin yng Nghanada, er enghraifft.
2. Mae addysg drochi'n golygu cyfrwng gwersi a hefyd:
  - i. iaith gweithgareddau ysgol gyfan : gwasanaethau ac ati
  - ii. iaith gweithgareddau ehangach y cwricwlwm: chwaraeon ac ati
  - iii. iaith gweithgareddau allysgol: ymweliadau ac ati
  - iv. iaith anffurfiol plant â'i gilydd: ar yr iard, amser egwyl a chinio
3. Yn gyffredinol, o safbwyt plentyn â'i iaith, mae angen i ail iaith feddu ar rôl sylweddol mewn un 'parth' o'i fywyd er mwyn dod yn gwbl rhugl. Heddiw mae 95% o'r plant sy'n mynychu ysgolion Cymraeg yn dod o deuluoedd Saesneg, lle mae'r Saesneg yn brif neu unig iaith pob part, e.e. y cartref, adloniant, y teulu ehangach, gweithgareddau hamdden, y cyfryngau. Mae angen i'r Gymraeg fod yn brif iaith un part o leiaf, ac mae addysg drochi'n diogelu hyn.
4. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cyfrannu'n ddiwylliannol at ddatblygiad y plentyn, yn ogystal ag yn addysgol, gan fod yr ysgolion hyn yn cyflwyno diwylliant Cymru yn ei gyfanrwydd, e.e. caneuon, cystadlu, hanes, actio.
5. Mae llwyddiant ieithyddol ysgolion Cymraeg yn dibynnu ar fod y Pennaeth a'r holl athrawon yn siarad y Gymraeg ac yn ei defnyddio gyda'r disgylion ar bob adeg.
6. Mae ysgolion Cymraeg yn dibynnu ar gydweithrediad rhieni, sy'n dymuno bod eu plant yn meistrolí'r Gymraeg a'r Saesneg, ac yn derbyn mai Cymraeg fydd iaith addysg. Mae'r cydweithrediad hwn yn rhan allweddol o llwyddiant ysgolion Cymraeg.

Wrth ystyried y **ffrwd Gymraeg**, dyma'r hyn sydd angen ei ddiogelu gydag unrhyw fodel dwy ffrwd mewn ardal ddi-Gymraeg:

1. Wrth ystyried agor ysgol ddwy ffrwd mewn ardal ddi-Gymraeg (yn wahanol i ardal oedd eraill o Gymru lle mae'r iaith yn cael ei defnyddio'n naturiol y tu allan i'r ysgol), cwbl angenrheidiol yw gwarchod datblygiad ieithyddol disgylion sy'n mynychu'r model mwyaf effeithiol o ddysgu Cymraeg, sef addysg drochi, sy'n dod yn ddinas ygyfanddion gyfangwbl ddwyieithog. **Ni ddylai model y ffrwd arall fod ar draul y llwyddiant hwn, a rhaid dal ati i gynyddu niferoedd y model hwn a chydnewid mai dyma'r unig fodel cwbl llwyddiannus, pa ffrwd bynnag arall sy'n cael ei ystyried ochr yn ochr.**
2. Mewn sefyllfa ddwy ffrwd mewn ardal ddi-Gymraeg, **rhaid i'r ffrydiau** (cyfrwng Saesneg neu rannol cyfrwng Saesneg) **aros yn annibynnol** er mwyn sicrhau amodau sy'n sicrhau llwyddiant parhaus addysg drochi cyfrwng Cymraeg. Rhaid iddynt redeg yn annibynnol, gwasanaethau, amser chwarae, gweithgareddau allgyrsiol, chwaraeon a chlybiau ar

wahân. (Fe allent wrth gwrs rannu yr un penneth, os yw'r penneth yn siaradwr Cymraeg rhugl.)

3. Yn y ffrwd Gymraeg rhaid sicrhau fod y Gymraeg yn hanfodol fel modd cyfathrebu i sicrhau'r cylchoedd profiadau iaith cyflawn. Mewn sefyllfaoedd ieithyddol pan fydd dewis rhwng dwy iaith, yr iaith leiafrifol fydd yn colli, a'r iaith fwyaf (Saesneg yn yr achos yma) fydd yn ennill. Y Saesneg fydd bob amser yn drechol, y Gymraeg fydd wastad yn colli. Gwanhau gafael ar iaith fydd y canlyniad.

### Perygl ffrydiau'n cymysgu

O ddilyn model o ddwy ffrwd (e.e. cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg) yn dysgu ar y cyd, a defnyddio'r ddwy iaith mewn gweithgareddau ysgol gyfan, bydd y pwyslais ar y Saesneg, am mai'r iaith honno fyddai iaith gyffredin – *lingua franca* – y sefydliad. Yn ôl ein profiad o ysgolion dwy ffrwd, Saesneg a ddefnyddir yn bennaf ar yr iard, mewn ymweliadau, chwaraeon ac ati. Mewn ysgol ddwy ffrwd gymysg mae'n debyg mai fel cyfrwng dysgu yn unig y byddai'r Gymraeg yn brif iaith yn y ffrwd Gymraeg, ac mae hyn yn wahanol iawn i brofiad ieithyddol cyflawn addysg Gymraeg.

### Ystyried goblygiadau ariannol a chynaliadwyedd

Profiad ysgolion dwy ffrwd yn aml (ond nid bob tro) yw creu system sy'n creu cystadleuaeth, a ble gwelir yn amlach na pheidio fod rhieni yn dewis y ffrwd mwyaf poblogaidd a bod un ffrwd yn dod yn anghynaliadwy a chostus. Anaml mae'r niferoedd yn gyfartal. Mewn ardal wledig gall fod yn anodd osgoi dwy ffrwd, ond mewn ardal drefol mae cyfle i wneud hynny. Ond nid ydym am weld peryglu agor ffrwd Gymraeg – rydym yn gwybod dros flynyddoedd o brofiad mai tyfu y bydd y ffrwd yma gydag amser.

### Casgliadau

Nid ydym am weld colli'r cynnig am ffrwd ychwanegol Gymraeg. O'i gynnig, **rhaid sicrhau amodau trochi yn ddi-gwestiwn yn y ffrwd Gymraeg**. Mae angen i'r sir ystyried yn ofalus goblygiadau'r ffrwd arbrofol Saesneg a gynigir.

### Y Ffrwd Saesneg

**Wrth ystyried y ffrwd Saesneg**, cadarnhaol ar bob cyfrif yw ceisio cynyddu gafael y disgyblion ar y Gymraeg. Does neb yn amau hyn. Ond mae angen gwneud penderfyniadau **gwybodus** am y math o ffrwd, a pheidio â thwyllo ein hunain am y cyrhaeddiad tebygol o ran sgiliau iaith. Ac ni ddylai fod ar draul datblygu addysg cyfrwng Cymraeg, sef yr unig fodel sydd wir yn effeithiol i greu unigolion cwbl ddwyieithog.

1. Gall unrhyw bennaeth mewn ysgol cyfrwng Cymraeg dystio bod yn rhaid wrth addysg gyflawn Gymraeg i roi'r patrymau ieithyddol angenrheidiol i ddisgyblion ddod yn rhugl. Mae angen y cylchoedd trochi i ddisgybl ddod yn rhugl. (Mae Ysgol Bro Pedr 3-18, Llanbed, er enghraift, newydd benderfynu troi'r cyfnod sylfaen i gyd

yn addysg cyfrwng Cymraeg yn unig, yn hytrach na darparu dwy ffrwd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.)

2. Ni lwyddodd model ddwyieithog debyg yn Ysgol Login Fach, Abertawe. Yno dilynwyd arbrawf gan gynnig cyfrwng Cymraeg yn y bore a chyfrwng Saesneg yn y prynhawn. Mewn ardal ddi-Gymraeg roedd Cymraeg y disgyblion ymhell tu ôl i safon disgyblion Ysgolion Cymraeg, ac roedd y disgyblion wedi methu ymdopi ag addysg uwchradd Gymraeg. Yn sgil hyn newidiodd cyngor Abertawe Login Fach wedyn i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg, ar gais corff llywodraethu'r ysgol.
3. Mae disgwyl bod 50% o ddisgyblion y ffrwd Saesneg yn dweud (paragraff 33 a 34) eu bod yn medru'r Gymraeg mewn ysgolion di-Gymraeg. Ydy hyn yn golygu bod disgwyl i 50% fethu? Rhaid diffinio beth yw 'siarad' Cymraeg, ac mae hyn yn wir am y cyfrifiad cenedlaethol hefyd. (Mae angen diffiniad o rhuglder.) Mae'n debygol y byddai canran llwyddo ysgol Gymraeg tua 95%, a chanran llwyddo systemau eraill tua 5-10% wrth edrych ar fodelau tebyg yn y gorffennol. Hunan-dwyll heb sail profiad nac ymchwil yw'r paragraff hwn sy'n ceisio cyflawnhau'r polisi. Os siarad Cymraeg ar lefel elfennol yw'r diffiniad o 'siarad Cymraeg' byddwn wedi twyllo ein hunain, ac ymarferiad cyfrifo yn unig bydd y miliwn o siaradwyr wedi bod, nid cynyddu siaradwyr rhugl a defnydd go iawn o'r Gymraeg. Bydd y disgyblion cyfrwng Cymraeg yn cyrraedd y lefelau uchaf ar y continwwm iaith newydd, tra ar y lefelau isaf y bydd y gweddill. Felly peidied a thwyllo ein hunain y bydd y model hwn yn datrys ein problemau.
4. Rhaid penodi athrawon â sgiliau iaith gyntaf i weithio yn y ffrwd Saesneg. Bydd yr athrawon gorau yn dewis addysgu yn y ffrwd Gymraeg am eu bod yn athrawon cyfrwng Cymraeg ac yn gweld gwerth i hynny ac wedi'u hyfforddi felly. Mae prinder athrawon, a phrinder mawr cyfrwng Cymraeg. I gynnal y Gymraeg yn y ffrwd Saesneg bydd angen i staff sydd â sgiliau cyfrwng Cymraeg da iawn gael eu penodi, ond byddant yn methu cynnig model rôl o ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol, gan y bydd bob amser yn haws i'r disgyblion gyfathrebu yn Saesneg ac na fydd yn ffordd angenrheidiol o gyfathrebu. Mae'n bosibl rhagweld y bydd yn aflwyddiannus fel model ac na fydd patrymau iaith digonol gan y disgyblion, ac na fydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn naturiol nac yn anffurfiol.
5. Sut fyddai'r athro'n gweithredu o ddydd i ddydd yn ieithyddol? O beidio â gwneud y Gymraeg yn gyfrwng hanfodol, bydd y disgyblion yn defnyddio'r Saesneg yn naturiol. Pa neges fydd hyn yn ei rhoi i ddisgyblion? Nid yw'r Gymraeg yn angenrheidiol? Mae'n hynod annhebygol y bydd yn creu siaradwyr rhugl. Peidied â disgwyl y bydd y model yn hudlath i'r cyngor.
6. Nodwn fod siroedd eraill, gan gynnwys Rhondda Cynon Taf, yn bwriadu troi eu hysgolion dwy ffrwd cyfochrog yn ysgolion cyfrwng Cymraeg dros y blynnyddoedd nesaf. Mae hwn yn ddatblygiad yr ydym yn ei groesawu'n fawr ac yn adlewyrchu polisi Llywodraeth Cymru mai ysgolion cyfrwng Cymraeg yw'r model mwyaf effeithiol o ran cynhyrchu siaradwyr sy'n hyfedr yn y ddwy iaith.

## Casgliadau

Ymarferiad niferoedd yw'r ymgais 'ddwyieithog', oherwydd mae'n rhaid i'r Llywodraeth rhywsut gael miliwn erbyn 2050. A rhaid i hynny ddigwydd drwy addysg cyfrwng Saesneg i gyrraedd niferoedd. Rydym wrth gwrs o blaid datblygu'r Gymraeg mewn ysgolion Saesneg, ond rhaid derbyn hefyd na fydd yn hynod lwyddiannus heb fuddsoddiad enfawr. Mae'n hawdd galw am filiwn o siaradwyr ond mae'n amhosib ei wireddu heb chwyldro ariannol ac addysgol. Gweler dyfyniad o erthygl ddiweddar 'Cymraeg i Bawb – Y Peryglon' yn *Barn* Ebrill 2019 gan ymchwilydd RhAG:

*'Mae yng Nghymru 1261 o ysgolion cynradd (Ystadegau'r Llywodraeth, 2018, yw'r niferoedd ysgolion a staff yn y paragraff hwn), a rhyw 400 o'r rhain yn ysgolion Cymraeg. Meddylier am ychydig am anferthedd unrhyw raglen gynhwysfawr i ddysgu'r Gymraeg mewn ysgolion Saesneg. Mae yng Nghymru ryw 26,000 o athrawon a 27,000 o staff eraill cefnogol. A derbyn bod tua chwarter o'r rhain mewn addysg Gymraeg, a bod rhai miloedd eisoes yn gymwys o ran eu Cymraeg yn gweithio yn y system Saesneg, bydd angen hyfforddiant iaith ar ryw 17,000 o staff dysgu a'r un nifer o staff cefnogol. A yw'r Llywodraeth yn fodlon ariannu hyn, dros ddeng mlynedd, dyweder? Dyma awgrym o'r math o ymdrech y bydd ei hangen: byddai angen dysgu'r iaith neu roi hyfforddiant iaith i 3,000 y flwyddyn, a chyflogi 300 o staff amser llawn i ddarparu hyn. Gan gynnwys costau gweinyddu, rwy'n barnu bod angen buddsoddiad o £10 miliwn y flwyddyn ar gyfer hyn.*

*Ond fydd hi ddim mor hawdd â hynny chwaith. O ble daw'r staff hyfforddi yn y lle cyntaf?... Y gwir amdani yw mai breuddwyd gwrach yw meddwl bod modd llwyddo gyda'r continwwm heb drawsnewid y byd addysg. Mae angen rhoi'r adnoddau mwyaf lle mae llwyddiant wedi'i warantu – sef mewn addysg Gymraeg...*

*Gwelwyd eisoes yn y Rhondda, wrth i Ysgol Treorci arbrofi mewn cyflwyno'r Gymraeg yn iaith gyntaf i rai disgyblion, bod disgyblion yn cael eu denu yno yn hytrach na pharhau eu haddysg yn gyflawn trwy'r Gymraeg. Hyd yn oed gyda'r ewyllys gorau, mae'n anodd gweld sut y bydd disgyblion mewn unrhyw ysgol Saesneg yn gallu cael un o'u cylchoedd bywyd yn gylch Cymraeg – elfen sy'n rhan annatod o fywyd disgyblion ysgol Gymraeg. Bydd angen bod yn wyliadwrus iawn.*

*Os yw miliwn o siaradwyr Cymraeg i fod yn darged realistig, a derbyn mai trwy ysgolion yn bennaf y daw'r cynnydd, mae angen trin y targed yn ddeallus. Ysgolion Cymraeg yn unig sy'n gallu rhoi sgliau cyflawn yn y Gymraeg i bob disgybl. Popeth am dda am ddysgu Cymraeg yn fwy effeithiol mewn ysgolion Saesneg,... ond byddai esgus cyrraedd y targed o filiwn trwy honni bod 200,000 o ddisgyblion ysgolion Saesneg 'Cymraeg' yn lle 'Cymraeg ail iaith' yn dwyll.'*

**Nona Gruffudd-Evans**

**RhAG Caerdydd**

**3 Mai 2019**

**Response to Cardiff Council Papers 18/4/19  
on the provision of New Primary School  
(Welsh medium and bilingual medium) in the Plasdŵr area**

RhAG is an organisation that represents the parents of pupils in Welsh-medium schools and those who wish to see the growth of Welsh-medium schools and Welsh-medium education. RhAG believes, as the Welsh Government does, that Welsh-medium schools are the best school model in terms of giving all pupils full skills in two languages.

RhAG (Parents for Welsh Medium Education) is fully supportive of the idea of opening:

**Option 1: A Welsh medium school, sharing a site** with an English medium school, with a federal head if he or she is a fluent Welsh speaker. This has worked effectively on many school sites in Cardiff in recent years and has ensured the smooth running of both schools on a day to day basis, ensuring their independence. In time the school could develop into a Welsh-medium two-form entry school on that site or a nearby site as the demand for Welsh-medium education increases and as Plasdŵr's development grows. If this is not practically possible, we will support Option 2.

**Option 2: An independent Welsh stream in a Two Stream School**, sharing a head teacher if he or she is a fluent Welsh speaker. The independence of the Welsh stream must be safeguarded to provide immersion education conditions. This would meet the growth of Welsh-medium education in the area as the development grows in the first phase. The stream could grow into a Welsh-medium two-form entry school on that site or on a nearby site as the demand for Welsh-medium education increases and as Plasdŵr's development grows.

**A New Welsh Stream**

It is positive that the Council wishes to expand Welsh-medium education, by establishing new Welsh-medium provision in this area. Cardiff Council continues to show leadership to councils across Wales as it expands Welsh-medium education and thus provides the best skills for Cardiff pupils. As new housing estates are built it is crucial that linguistic considerations are central to those plans. This will ensure that parents who settle in the area can choose Welsh-medium education easily and locally.

We know that the model of **immersion education** is internationally recognised and also recognised by the Welsh Government as the only model which creates fully bilingual citizens, particularly in areas where over 90% come from non-Welsh speaking homes. Rhieni dros Addysg Gymraeg (Parents for Welsh Medium Education) has over 40 years' experience of researching and observing different models in non-Welsh speaking areas.

**We welcome these initial plans, but also wish to emphasise the importance of protecting this model of immersion education with any development.**

As background information, this is why **immersion education** is so successful:

1. It is internationally recognised that immersion education provides the best opportunity for a child to acquire a second language, and to become fluent in it. It is common in Canada, for example.
2. Immersion education means the medium of lessons and also:
  - language of whole school activities: morning services and so on
  - language of wider curriculum activities: sport and so on
  - language of extra-curricular activities: visits and so on
  - children's informal language with each other: on the yard, break time and lunch
3. Generally, from a child's point of view, a second language needs to have a significant role in one 'domain' of their life in order for them to become fully fluent. Today over 90% of the children attending Welsh-medium schools come from English-speaking families, where English is the main or only language of each domain, e.g. the home, entertainment, the wider family, leisure activities, the media. Welsh needs to be the main language of at least one domain, and immersion education protects this.
4. Welsh-medium schools contribute culturally to the child's development, as well as educationally, as these schools present the culture of Wales as a whole, e.g. songs, competitions, history, acting.
5. The linguistic success of Welsh-medium schools depends on the Headteacher and all teachers speaking Welsh and using it with the pupils at all times.
6. Welsh-medium schools rely on the co-operation of parents, who wish their children to master Welsh and English, and accept that Welsh will be the language of education. This co-operation is a key part of the success of Welsh-medium schools.

When considering the **Welsh stream**, the following should be protected within any dual stream model in a non-Welsh speaking area:

1. When considering opening a dual stream school in a non-Welsh speaking area (unlike other areas of Wales where the language is used naturally outside the school), it is absolutely necessary to protect pupils' linguistic development when they attend the most effective model of learning Welsh, namely immersion education, for them to become fully bilingual citizens. **The other stream model should not be at the expense of this success, and we must continue to recognise that this is the only fully successful model, whatever other stream is considered side by side.**
2. In a dual stream situation in a non-Welsh-speaking area, **the streams** (English-medium or partly English-medium) **must remain independent** of each other in order to ensure conditions that safeguard the continued success of immersion education. They must run independently, arrange services, playtime, extra-curricular activities, sports and clubs separately. (They may of course share the same head teacher, if the headteacher is a fluent Welsh speaker.)

3. In the Welsh stream, the Welsh language must be the essential means of communication to ensure the full round of language experiences. In language situations when there is a choice between two languages, the minority language will always lose, and the majority language (in this case English) will win. The English will always be dominant, Welsh will always lose. The outcome will be the weakening of linguistic skills.

### Risk of mixing streams

If a model of teaching two streams jointly is followed, using both languages in whole school activities, the emphasis will be on the English language because that would be the common language - the *lingua franca* - of the organisation.

Our experience of dual stream schools, demonstrates that English is mainly used on the yard, in visits, sports etc. In a mixed stream school, it is likely that the Welsh language would be the main language in the Welsh stream only as a medium of learning, and this is very different to the full linguistic experience of Welsh medium education.

### Consideration of financial and sustainability implications

The most common experience of dual stream schools (but not always) is to create a system that creates competition, and more often than not parents choose the most popular stream and one stream becomes unsustainable and costly. Numbers are rarely equal. In a rural area it can be difficult to avoid two streams, but in an urban area there is an opportunity to do so. But we would not want to see the risk of no Welsh medium provision at Plasdŵr – we know from experience that the provision will flourish and expand.

### Conclusion

We support the plans for a Welsh medium stream but we strongly believe immersion conditions must be ensured without question. The Council needs to give careful consideration to the implications of the proposed English stream.

### A New English/Bilingual Stream

When considering English streams, it is of course a positive and laudable aim to increase all pupils' grasp of the Welsh Language. However, informed decisions must be taken about the type of 'streaming' offered, and we should not deceive ourselves about the likely achievement in terms of language acquisition. **The only model which effectively creates bilingual individuals is Welsh medium education, and no English stream planning should be at the expense of Welsh medium education.**

1. Any Headteacher in a Welsh-medium school can testify that full and complete Welsh-medium education must be provided to give pupils the necessary linguistic patterns to become fluent. Immersion techniques are required for a pupil to become fluent. (Ysgol Bro Pedr 3-18, Lampeter, for example, has just decided to turn the foundation phase into Welsh-medium education only, rather than providing two Welsh-medium and English-medium streams.)

2. A bilingual model was not successful at Login Fach School, Swansea some 20 years ago. They experimented by offering Welsh medium education in the morning and English medium education in the afternoon. In a non-Welsh speaking area, pupils' acquisition of Welsh was far behind the standard of pupils attending Welsh-medium education, and pupils had been unable to cope with Welsh-medium secondary education. Swansea Council subsequently changed Login Fach to become a Welsh medium school, at the request of the school governing body.
3. It is expected that 50% of pupils in the English stream say (paragraph 33 and 34) that they can speak Welsh. Does this mean that 50% are expected to fail? What is meant by 'speaking' Welsh? This must be defined (this is also true of the national census). It is likely that the success rate of a Welsh-medium school would be around 95%, and the success rate of any other education would be around 5-10% according to similar models in the past. This paragraph contains inaccuracies without evidence seeking to justify the policy. If the definition of 'speaking Welsh' is to speak Welsh at an elementary level we will have deceived ourselves, and reaching the million speakers will have been an accounting exercise only, without increasing fluent speakers and any real use of the Welsh language. The Welsh-medium pupils will reach the highest levels on the continuum, while the remainder will be at the lowest levels. So, we should not deceive ourselves that this model will help us achieve our goals.
4. In order to ensure the use of Welsh in the English stream, Welsh medium teachers must be appointed to work in the English stream. As there is a shortage of teachers in general, and a shortage of Welsh-medium teachers in particular, there is a real risk that staff with sufficient skills could not be appointed to ensure this. The majority of Welsh speaking teachers choose to work in Welsh medium schools and it would be difficult to attract them to work in an English stream.
5. How would a teacher operate day to day on a linguistic basis? If Welsh is not promoted as the essential medium of communication, pupils will naturally turn to the English language. What message would this give to the pupils and school community? That Welsh is not necessary? It is highly unlikely that fluent Welsh Speakers would be created. The proposed model is certainly not a magic wand for the council.
6. We note that other local authorities, including Rhondda Cynon Taf, intend to turn their dual stream schools into Welsh medium schools over the next few years. This is a development we very much welcome, which reflects the Welsh Government's policy that Welsh-medium schools are the most effective model in terms of producing proficient speakers in both languages.

## Conclusions

We fear that the 'bilingual' proposal is a numbers exercise, because the Government has to somehow create a million speakers by 2050. This sudden increase can only be achieved through English-medium education to some extent. We are of course in favour of developing the use of the Welsh language in English-medium schools, but we also have to accept that it will not be successful without huge investment. It is impossible to achieve without a financial

and educational revolution. See below comments by a RhAG researcher published in *Barn* (April 2019):

*'There are 1261 primary schools (Government Statistics, 2018), and some 400 of these are Welsh-medium schools. Think about the enormity of any comprehensive program to introduce the teaching of Welsh in English medium schools. Wales has some 26,000 teachers and 27,000 other support staff. Given that around a quarter of these are in Welsh-medium education, and that some thousands in the English medium system are already qualified in terms of their Welsh, some 17,000 teaching staff and the same number of support staff will require language training. Does the Government plan to fund this, say, over ten years? This is a suggestion of the kind of effort that would be needed: the language would need to be taught or language training delivered to 3,000 staff members a year, and 300 full time staff would need to be employed to provide this. Including administration costs, I consider that this requires an investment of £10 million a year. But it won't be that easy either. Where would the training staff come from in the first place? ... The reality is that it is a dream to think that it is possible to succeed with the continuum without transforming the world of education. The greatest resources need to be given where success is guaranteed - namely in Welsh-medium education...'*

*As has already been seen in the Rhondda, as Ysgol Treorchy experimented with introducing Welsh as a first language to some pupils, pupils are attracted there rather than continuing their education fully through the medium of Welsh. Even with the best will, it is difficult to see how pupils in any English-medium school would be able to have one of their life cycles as a Welsh-language cycle - an element that is an integral part of the life of Welsh-medium pupils. We need to be very vigilant.*

*If a million Welsh speakers is to be a realistic target, and that we accept that progress is mainly through schools, the target needs to be handled intelligently. Only Welsh-medium schools are able to give all pupils complete Welsh language skills. More effective teaching of Welsh at English medium school is to be welcomed ... but we need to be clear that 'Welsh second language' is no substitute for 'Welsh'.'*

**Nona Gruffudd-Evans**

**Cardiff RhAG**

**3 May 2019**